

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Bethlehem, Talybont  
ar nos Iau 12 Hydref, 2017 am 1900**

## **1. PRESENNOL:**

### **Ward Llanllechid Isaf**

Y Cynghorydd Evan Jones  
Y Cynghorydd Alun Thomas  
Y Cynghorydd Megan Tomos  
Y Cynghorydd Geraint Hughes  
Y Cynghorydd Margaret Fernley  
Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

### **Ward Llanllechid Uchaf**

Y Cynghorydd Jên Morris  
Y Cynghorydd Kevin Williams  
Y Cynghorydd Dafydd Jones

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Dafydd Jones**

**2. Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Myfanwy Jones

## **3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2017, yn ddarostyngedig i Eitem 6-E-bost gan Un Llais Cymru ynglŷn a aelodaeth.

***Penderfynwyd peidio ymaelodi.***

## **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**Siwins ac eogiaid** – y Cyng. Dafydd Jones heb weld neb i ofyn am ddiweddariad i'r sefyllfa, a'r Cyng. Evan Jones heb glywed dim byd pellach.

**Arriva**– Y Cyngor yn anhapus gyda'r broses ymgynghori. Y Clerc i anfon e-bost i ddatgan siom y gymuned.

**Palmant Tan y Lôn at 'Gypsy Corner'**- trafodwyd bod y palmant ar y ddwy ochr i'r ffordd angen sylw brys i'r mwsogl a'r cloddiau. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd unwaith eto.

**Eglwys Llan**– y llwybr cyhoeddus ger yr eglwys wedi dirywio. Dim ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd hyd yn hyn. Y Clerc i gysylltu unwaith eto.

**Tal y Bont-** Swyddogion Cyngor Gwynedd a trigolion Tal y Bont wedi bod o gwmpas yn edrych ar gyflwr draeni'r ardal. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd unwaith eto pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud.

## **5. System atal-llifogydd**

Yn dilyn tywydd drwg yn ddiweddar, roedd lefel yr afon yn ofnadwy o agos i dop y wal unwaith eto. Mae trafodaethau wedi bod gyda Cyngor Gwynedd, sydd yn edrych i wneud gwelliannau i'r system-gosod sgrin newydd, draen tir newydd, gosod argae yn uwch i fyny a lleihau'r wal i'r 'outflow'. Mae i'w weld bod y gwaith wedi ei ddechrau.

## **6. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Partneriaeth Ogwen

£1595.27

## **7. Gohebiaeth**

**Cyflwynwyd**-e-bost gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol-Adroddiad Blynnyddol 2018/19. Nodwyd yr ohebiaeth.

**Cyflwynwyd**- e-bost gan Llywodraeth Cymru-Aelodau'r Panel Annibynnol yn awyddus i glywed barn pawb am y Cynghorau Cymuned a Thref. Y Clerc i ymateb.

**Cyflwynwyd**- e-bost gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru-drafft Canllaw i Brif Gynghorau. Y Clerc i ymateb.

**Cyflwynwyd**- e-bost gan Gyngor Gwynedd –Hunanlaith-cyfle i'r Cyngor gydweithio gyda Hunanlaith ar gynllun i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan grwpiau a gweithgareddau cymunedol yn ei ardal. Nodwyd yr ohebiaeth.

## **8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr**

**Arddangosfa Gorchmynion Drafft gwaith yr A55 Abergwyngregyn i Tai'r Meibion**- adroddwyd na fydd y gwaith yn dechrau am o leiaf dwy flynedd. Penderfynwyd anfon sylwadau pellach ynglŷn a'r palmant ger Tan y Lôn ac o Aber i Fangor, i weld os oes bosib i'r cynllun yma ehangu a gwneud gwelliannau i'r palmentydd.

**Cyfarfod yn mynwent Llan**- y Cyngor. Dafydd Jones a Kevin Williams wedi cyfarfod gyda'r Parch. John Matthews i drafod ac archwilio'r fynwent. Penderfynwyd gwahodd y Parchedig i'r cyfarfod nesaf.

**Parc Cenedlaethol**-adroddwyd bod Cynllun Partneriaeth Tirwedd Carneddau wedi penodi 2 swyddog newydd. Penderfynwyd gwahodd y swyddogion i un o'r cyfarfodydd dechrau flwyddyn nesaf i drafod y cynllun gyda ni.

**Cynghorydd Sir**- penderfynwyd gwahodd y Cyng. Dafydd Meurig i'r cyfarfod nesaf.

## **9.Penderfyniadau Cynllunio:**

**NP3/21/LB61A**

Dim i'w ystyried.

## **Ceisiadau Cynllunio:**

Dim ceisiadau i'w ystyried.

## **10. Materion Brys**

**Allt Ty'n Hendre**- llawer o ddail wedi casglu yno, sydd yn mynd i amharu ar y draeni. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

**Stad Penrhyn**- adroddwyd bod yna bot o arian fel rhan o gynllun 'Trustees' ar gael i'r gymuned. Angen chwilio am wybodaeth pellach.

**Gwrychoedd**- adroddwyd nad oedd Tyddyn Isaf heb dorri eu gwrychoedd.

Penderfynwyd bydd y Cyng. Kevin Williams yn holi.

**Lôn Goed**- ochr Coetmor-adroddwyd bod angen gwneud cais i Gyngor Gwynedd lanhau'r ffoes ac yna gosod postia i atal ceir fynd i drafferthion.

**Mignant i Llan**-adroddwyd bod angen trefnu ymgyrch casglu sbwriel ar hyd y ffordd.

**Sincs Llan**- angen hysbysu Cyngor Gwynedd bod angen glanhau'r draeni ar hyd y ffordd rhwng Eglwys Llan a Corbri.